



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

# Trefniadau sefydlu statudol athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 14 Chwefror 2022  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 8 Ebrill 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.  
This document is also available in English.

# Trefniadau sefydlu statudol athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn am gynigion i ddiwygio trefniadau sefydlu statudol athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru.

## Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 8 Ebrill 2022 fan bellaf.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae gwybodaeth am y trefniadau sefydlu presennol ar gael ar [dudalennau sefydlu Hwb](#).

Gellir dod o hyd i ddogfennau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru/ymgyngoriadau](http://llyw.cymru/ymgyngoriadau)

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Addysgeg, Safonau Proffesiynol a Safon Uwch  
Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: [inductioninfo@llyw.cymru](mailto:inductioninfo@llyw.cymru)



@LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymglymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>



# Cynnwys

<b>Cefndir</b>	<b>2</b>
<b>Beth yw'r sefyllfa bresennol?</b>	<b>2</b>
<b>Trefniadau sefydlu yn Lloegr</b>	<b>4</b>
<b>Pam rydym yn cynnig newidiadau?</b>	<b>4</b>
<b>Gweledigaeth ar gyfer sefydlu</b>	<b>6</b>
<b>Pa newidiadau rydym yn eu cynnig?</b>	<b>7</b>

## Cefndir

Mae datblygu proffesiwn addysgu o ansawdd uchel yn rhan ganolog o wireddu ein gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru ac mae'n un o'r pedwar amcan galluogol yn [Cenhadaeth ein Cenedl](#).

Mae trefniadau sefydlu statudol athrawon newydd gymhwyso (ANGau) yn rhan o'r weledigaeth hon drwy:

- alluogi ANGau i adeiladu ar y wybodaeth a'r profiadau a gafwyd yn ystod addysg gychwynnol athrawon (AGA).
- cefnogi ANGau i gael y dechrau gorau i'w gyrfa fel athrawon a'u hannog i ddatblygu'n broffesiynol drwy gydol eu gyrfa.
- rhoi cyfle i bob ANG ddatblygu ei ymarfer drwy ganolbwyntio ar y gofynion a nodir yn y safonau proffesiynol.
- sefydlu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau sy'n gyson â gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru fel a osodir yn Neddff Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Mae proses sefydlu ar gyfer ANGau, sy'n cynnwys cyrraedd safonau proffesiynol a chwblhau cyfnod gofynnol o addysgu, wedi bod yn rhan statudol o ddysgu proffesiynol athrawon yng Nghymru ers 2003.

Yn 2012, gwnaed newidiadau i'r broses sefydlu mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr AGA a oedd yn ennill statws athro cymwysedig (SAC) a'r lleihad yn nifer y swyddi addysgu llawn amser oedd ar gael i ANGau. Ers hynny, mae cyfnodau o gyflogaeth o hanner diwrnod neu fwy yn cyfrif tuag at gwblhau proses sefydlu ar gyfer ANGau, ac nid oes terfyn ar yr amser y caiff ANGau eui cymryd i gwblhau'r cyfnod sefydlu.

Cafodd safonau proffesiynol newydd ar gyfer pob ymarferydd, gan gynnwys y rhai sy'n cynorthwyo addysgu, eu datblygu gyda'r proffesiwn, a dechreuwyd eu cyflwyno yn 2017. Mae'r pum safon (addysgeg, arloesi, arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol a chydweithredu) yn darparu ffocws a rennir i fyfyrwyr AGA, athrawon, arweinwyr, cynorthwywyr addysgu a chynorthwywyr addysgu lefel uwch gydol eu gyrfaedd.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr AGA ac ANGau gyrraedd y safonau proffesiynol cyn y gallant ennill SAC yn foddhaol a chwblhau'r cyfnod sefydlu er mwyn symud ymlaen i gam nesaf eu gyrfa.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw llywio ein cynigion ar gyfer adolygu'r trefniadau sefydlu yn unol â'n gwelediaeth ar gyfer addysg yng Nghymru. Lleihawyd cyfnod yr ymgynghoriad i 8 wythnos fel ei fod yn dod i ben wrth i ysgolion orffen ar gyfer gwyliau'r Pasg. Gwnaed hyn i sicrhau nad oes disgwyl ar y sector i ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod gwyliau ysgol. Mae lleihau'r cyfnod ymgynghori hefyd yn cynnig posibilrwydd i newidiadau deddfwriaethol gael eu gwneud a dod i rym yn barod ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2022/23.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Mae'r trefniadau presennol wedi'u nodi yn [Rheoliadau Addysg \(Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol\) \(Cymru\) 2015 \(Rheoliadau 2015\)](#) ac [Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru \(2017\)](#).

Mae'n ofynnol i bob athro newydd gymhwyso ymgymryd â chyfnod sefydlu heb fod yn llai na thri thymor neu 380 o sesiynau os bydd yn gweithio fel athro cyflenwi neu'n rhan-amser. Nid oes unrhyw hyblygrwydd i ANGau sy'n cyrraedd y safonau proffesiynol gwblhau eu proses sefydlu os nad ydynt wedi cwblhau'r cyfnod sefydlu gofynnol. Dim ond mewn lleoliadau penodol y gellir cwblhau'r cyfnod sefydlu, ac nid oes hyblygrwydd i'w gwblhau mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Nid oes unrhyw derfyn ar y cyfnod o amser y caiff ANG ei gymryd i gwblhau ei gyfnod sefydlu ac mae'n rhaid i bob cyfnod o gyflogaeth (fel athro) o hanner diwrnod neu fwy gyfrif tuag at gwblhau'r cyfnod sefydlu.

Mae gan ANGau hawl i gael cymorth gan fentor sefydlu yn ei ysgol. Caiff ANGau a gyflogir ar sail cyflenwi byrdymor eu cefnogi gan wiriwr allanol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ariannu rôl mentor sefydlu, ond mae'n darparu cyllid ar gyfer rôl gwiriwr allanol, naill ai i'r ysgol sy'n ei gyflogi neu ar sail ymgynghorol drwy'r consortiwm/awdurdod lleol (ALI).

Rôl y gwiriwr allanol a'r mentor sefydlu yw gwneud argymhellion i'r corff priodol gan ddefnyddio proffil sefydlu'r ANG. Mewn rhai rhanbarthau/ALLau yr un person sy'n cydgysylltu'r trefniadau sefydlu ac yn cyflawni rôl y corff priodol. Mae'r corff priodol yn ystyried yr argymhellion ac yn penderfynu:

- a yw'r ANG wedi cwblhau ei gyfnod sefydlu'n foddhaol;
- a oes angen estyn cyfnod sefydlu'r ANG (hyd at dri thymor ysgol);  
neu
- a yw'r ANG wedi methu â chwblhau ei gyfnod sefydlu'n foddhaol.

Mae penderfyniadau'r corff priodol ar ganlyniad y cyfnod sefydlu yn destun prosesau cymedroli lleol a chenedlaethol.

Disgwylir i bob ANG ymgymryd â'r rhaglen sefydlu a ddarperir gan gonsortia/ALLau a chyfrifoldeb penaethiaid yw sicrhau bod hyn yn digwydd yn achos ANGau a gyflogir gan yr ysgol neu'r ALI. Mae disgwyl i asiantaethau cyflenwi sy'n rhan o [Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol](#) sicrhau bod yr ANGau maent yn eu cyflogi yn cael y cymorth sydd eu hangen arnynt i fodloni'r gofynion sefydlu.

Mae hawl gan ANGau a gyflogir o dan Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (STPC(W)D) i gael lleihad ychwanegol o 10% mewn amser addysgu (yn ychwanegol at amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu) i ymgymryd â dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â sefydlu.

Mae cyllid ar gael i ysgolion gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag amser rhyddhau ANGau (amser pan gaiff ANGau eu rhyddhau o'u dyletswyddau addysgu i ymgymryd â dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â sefydlu).

Er mwyn i ANGau gael y cymorth y mae ganddynt yr hawl iddo, mae'n rhaid iddynt gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yn y categori 'athro ysgol' ar ôl iddynt ennill SAC (a chyn cael eu cyflogi gan ALI, ysgol neu asiantaeth gyflenwi). Mae'n rhaid i ANG gwblhau ffurflen hysbysu sefydlu a'i chyflwyno i Gyngor y Gweithlu Addysg er mwyn i fentor gael ei neilltuo ac i'r ysgol dderbyn cyllid ar gyfer amser rhyddhau'r ANG. Mae'n rhaid i ANGau sy'n cwblhau'r cyfnod sefydlu drwy'r llwybr cyflenwi byrdymor gyflwyno ffurflen ar gyfer pob cyfnod o gyflogaeth mewn ysgol.



Er mwyn lliniaru effaith y pandemig ar gyfleoedd ANGau i gwblhau eu cyfnod sefydlu, cyflwynwyd diwygiadau dros dro i Reoliadau 2015 ym mis Gorffennaf 2020 a daethant i ben ar 31 Awst 2021. Roedd Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 yn caniatáu i ANGau ddweud bod cyfran o'r amser roeddent yn ymgymryd â dysgu proffesiynol annibynnol yn cyfrif tuag at eu cyfnod sefydlu. Roeddent hefyd yn rhoi disgrisiwn i gyrff priodol ganiatáu i ANG a oedd yn cyrraedd y safonau proffesiynol gwblhau'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus ar ôl 110 o sesiynau ysgol o leiaf.

Cynigiwyd lleoliad addysgu mewn ysgol ar gyfer tymor yr hydref, gan ddechrau ym mis Medi 2021, i ANGau a gyflawnodd statws SAC yn ystod blynyddoedd academiaidd 2019/20 a 2020/21 lle na bu modd iddynt gwblhau'r cyfnod sefydlu oherwydd diffyg cyfleoedd yn ystod y pandemig. Mae'r cynllun lleoliad sefydlu, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn galluogi ANGau cymwys i gael profiad ystafell ddsbarth mewn un ysgol am dymor a'r cyfle i gymryd rhan ym mhob agwedd ar addysgu. Mae hefyd yn rhoi capasiti ychwanegol i ysgolion i helpu dysgwyr i adfer ac i gefnogi datblygiad y Cwricwlwm i Gymru newydd.

Rydym yn gweithio gyda chonsortia/ALLau a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu pecyn cymorth gyrfa gynnar cenedlaethol (ECSP) ar gyfer pum mlynedd cyntaf gyrfa athro. Bydd sefydlu'n rhan o hyn, ynghyd â chyfnod pellach o ddysgu proffesiynol ar gyfer athrawon sydd ar gamau cynnar eu gyrfa, gan arwain at gyfle i astudio'r radd Meistr newydd mewn addysg. Mae'r ECSP yn cael ei ddatblygu i gyd-fynd â'r trefniadau sefydlu diwygiedig arfaethedig, a bydd ar gael o fis Medi 2022 ymlaen. Bydd rhagor o wybodaeth am yr ECSP ar gael maes o law.

## Trefniadau sefydlu yn Lloegr

Mae diwygiadau i'r fframwaith gyrfa gynnar yn Lloegr yn cynnwys newidiadau i drefniadau sefydlu statudol. O fis Medi 2021, symudodd ANGau o gyfnod sefydlu blwyddyn o hyd i gyfnod sefydlu dwy flynedd o hyd, ac yn ystod y cyfnod hwn, mae ganddynt yr hawl i raglen hyfforddiant a chymorth sy'n para dwy flynedd. Mae'r newid yn cyd-fynd ag estyniad taprog i hawl ANGau i gael eu rhyddhau o ddyletswyddau addysgu am gyfran o'u hamser, at ddibenion datblygu proffesiynol. Mae'r amser rhyddhau o amser addysgu ym mlwyddyn un yn 10% o hyd, gan leihau i 5% yn yr ail flwyddyn, ac i sero yn y drydedd flwyddyn.

Mae trefniadau cyfatebol ar waith ar hyn o bryd yn Lloegr i alluogi ANGau sydd wedi dechrau eu cyfnod sefydlu yn Lloegr barhau ag ef yng Nghymru, ac fel arall. Nid ydym yn cynnig y dylid newid y trefniadau hyn.

## Pam rydym yn cynnig newidiadau?

Mae trafodaeth barhaus rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r rhaglen sefydlu wedi tynnu sylw at nifer o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw. Arweiniodd hyn at gomisiynu dau adolygiad annibynnol yn canolbwyntio ar brofiad ANGau o sefydlu ([Ymchwil ar drefniadau sefydlu statudol athrawon](#) gan OB3) a rhaglenni sefydlu consortia ([Dysgu bod yn athro yng Nghymru: sefydlu athrawon yn y proffesiwn](#) gan yr Athro Mick Waters) a gyhoeddwyd yn 2020. Roedd y ddau adolygiad yn cefnogi barn rhanddeiliaid allweddol ac yn dangos bod angen diwygio'r trefniadau sefydlu yn gyfan gwbl er mwyn mynd i'r afael â nifer o faterion sy'n rhannu'n fras yn bedwar categori:

## **Amrywiadau yn y trefniadau sefydlu ac anghysondeb y cymorth ledled Cymru**

- Mae gan fentoriaid sy'n cefnogi ANGau wahanol lefelau o brofiad a hyfforddiant.
- Nid yw'r rôl fentora wedi'i hariannu ar hyn o bryd a cheir trosiant uchel o fentoriaid.
- Mae'r trefniadau ar gyfer mentora ANGau sy'n ymgymryd â sefydlu drwy'r llwybr cyflenwi byrdymor yn amrywio.
- Mae'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i ANGau yn amrywio.
- O dan y trefniadau presennol, nid oes terfyn amser i ANGau gwblhau eu cyfnod sefydlu. Mae data Cyngor y Gweithlu Addysg yn dangos bod cyfran fechan o ANGau sy'n gweithio mewn ysgolion ac sy'n meddu ar SAC ers cyn 2017, heb gwblhau eu cyfnod sefydlu eto am amryw o resymau. Mae'r cyfnod sefydlu yn ffurfio rhan o ddatblygiad proffesiynol yr ANGau a'r bwriad yw ei fod yn cynorthwyo ANGau i ddatblygu eu hymarfer yn ystod eu gyrfa cynnar, ac yn sicrhau eu bod wedi'u paratoi yn llawn ar gyfer eu gyrfa mewn addysgu.
- Nid yw rhai ANGau yn cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg cyn dechrau eu cyfnod sefydlu. Mae hyn yn golygu na allant gofnodi'r sesiynau maent yn eu gweithio, nad ydynt yn cael y cymorth y mae ganddynt yr hawl iddo ac mae'n bosibl na fyddant yn mynychu digwyddiadau dysgu proffesiynol.

## **Agweddau ymarferol ar fodloni'r gofynion sefydlu statudol, yn enwedig ar gyfer ANGau sy'n ymgymryd â sefydlu drwy'r llwybr cyflenwi byrdymor**

- Mae rhai ANGau yn dymuno arbenigo mewn addysgu mewn lleoliadau penodol, e.e. unedau cyfeirio disgyblion. Fodd bynnag, o dan Reoliadau 2015, ni all ANGau gyfrif amser a dreulir mewn unedau cyfeirio disgyblion tuag at eu cyfnod sefydlu. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd rhai ANGau i ddatblygu eu hymarfer yn ogystal â chyfyngu ar allu unedau cyfeirio disgyblion i recriwtio gan eu bod yn annhebygol o ddenu ANGau i swyddi gwag.
- Mae'n bosibl na fydd ANGau sy'n ymgymryd â gwaith cyflenwi byrdymor yn cael cyfle i ddatblygu pob agwedd ar eu hymarfer yn llawn, fel cynllunio'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgu dros gyfnod o amser, oherwydd ei natur dros dro.
- Mae natur dros dro addysgu fel athro cyflenwi yn creu heriau o ran mentora a mynychu sesiynau dysgu proffesiynol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y cymorth a ddarperir i ANGau cyflenwi byrdymor yn amrywio o ran y ddarpariaeth a'r ansawdd. Nid yw rhai ANGau cyflenwi yn mynychu sesiynau dysgu proffesiynol os oes rhaid iddynt ddewis rhwng cyflogaeth (â thâl) neu ddysgu proffesiynol (di-dâl). Mae'n anodd dod o hyd i rai ANGau neu nid ydynt yn 'weladwy' gan nad ydynt yn cofnodi eu sesiynau gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Mae hyn yn golygu na chaiff gwiriwr allanol ei neilltuo.

## **Cyfraddau cadw athrawon isel yn ystod blynyddoedd gyrfa cynnar**

- Mae data Llywodraeth Cymru<sup>1</sup> a gasglwyd rhwng 2016 a 2020 yn dangos nad yw rhwng 19% a 22% o fyfyrwyr sy'n ennill SAC yn mynd ymlaen i gofrestru i sefydlu. Caiff y ffigurau hyn eu casglu ym mis Hydref bob blwyddyn a gallant ostwng yn ystod y flwyddyn.

## **Lefel o fiwrocratiaeth a ffocws ar amser a wasanaethwyd sy'n bwrw cysgod dros ddiben canolog y cyfnod sefydlu**

- Mewn rhai achosion, gall y dystiolaeth y mae'n ofynnol i ANGau ei darparu yn eu Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP), fod yn hir ac yn feichus. Er enghraifft, mae'r gofyniad i ANGau sydd wedi'u cyflogi ar sail cyflenwi byrdymor gofnodi pob cyfnod o gyflogaeth o hanner diwrnod neu fwy gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn feichus ac nid yw bob amser yn digwydd. Mae'n rhaid i daflenni amser gael eu llofnodi gan aelod o dîm uwch-reolwyr yr ysgol cyn i'r ANG eu lanlwytho i'w broffil sefydlu. Nid yw hyn yn ymarferol yn enwedig os bydd yr ANG wedi'i gyflogi am gyfnodau byr mewn sawl ysgol mewn un wythnos.
- Mae'r ffocws presennol ar nifer y sesiynau a weithiwyd a'r diffyg hyblygrwydd yn creu llawer o waith i bawb. Mae hefyd yn golygu na all ANG cyflenwi byrdymor sydd wedi dangos ei fod yn athro effeithiol ac sydd wedi casglu tystiolaeth ei fod yn cyrraedd y safonau proffesiynol gwblhau'r cyfnod sefydlu os nad yw wedi cofnodi 380 o sesiynau. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r ANG chwilio am gyflogaeth fel ANG cyflenwi y flwyddyn academaidd ganlynol er mwyn cofnodi'r ychydig sesiynau sydd ar ôl. Mae'r trefniant hwn yn anghydnaws ag arferion gwaith am fod y penderfyniad a yw'r ANG yn bodloni'r safonau proffesiynol (yn seiliedig ar arsylwi a thystiolaeth ym mhroffil sefydlu'r ANG) yn cael ei wneud cyn diwedd y tymor, h.y. cyn y bydd ANG wedi cwblhau 380 o sesiynau o bosibl. Fodd bynnag, nes bod 380 o sesiynau wedi'u cofnodi, nid yw'r cyfnod sefydlu wedi'i gwblhau ac ni all yr ANG symud ymlaen i gam nesaf ei yrfa.

## **Gweledigaeth ar gyfer sefydlu**

Drwy wneud newidiadau i'r trefniadau sefydlu statudol, rydym am sicrhau'r canlynol:

- a) Caiff Cymru ei hystyried yn lle deniadol i ymuno â'r proffesiwn addysgu, sy'n cynnig cyfleoedd i arloesi yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae ANGau yn elwa ar gymorth pwrpasol â ffocws ac yn myfyrio ar eu datblygiad proffesiynol gan ddefnyddio'r PDP.
- b) Caiff sefydlu ei ail-lunio fel rhan annatod o'r pecyn cymorth gyrfa gynnar pum mlynedd, yn hytrach na bod yn gyfnod ar wahân mewn gyrfa athro, ac ar ôl hynny mae'r cymorth mentora yn dod i ben ac mae'r trefniadau ar gyfer dysgu proffesiynol neu gynnydd yn amrywio yn unol â'r lleoliad a'r amgylchiadau unigol. Mae addysgu yn broffesiwn uchel ei barch sy'n rhoi boddhad mawr a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y lleihad yn nifer yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn yn ystod pum mlynedd cyntaf eu gyrfa.
- c) Gall ANGau ymgymryd â'r cyfnod sefydlu mewn ffordd hyblyg mewn amrywiaeth o leoliadau sy'n cyd-fynd â'u statws cyflogaeth. Byddai ansawdd a chwmpas mentora a

---

<sup>1</sup> Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru)

dysgu proffesiynol i ANGau, ynghyd â'r defnydd strategol o amser ac adnoddau (y PDP a Hwb er enghraifft) yn rhoi'r cyfle i'r rhan fwyaf o ANGau ddod yn ymarferwyr effeithiol a chwblhau'r broses sefydlu'n llwyddiannus dros gyfnod o flwyddyn (neu gyfnod cyfatebol).

- d) Byddai'n rhaid i ANGau gwblhau eu cyfnod sefydlu o fewn pum mlynedd (ar ôl ennill SAC) er mwyn sicrhau y caiff eu sgiliau a'u gwybodaeth eu meithrin a bod pob athro sy'n gweithio mewn ysgol yng Nghymru, boed hynny ar sail llawn amser, rhan amser neu gyflenwi, wedi dangos ei fod yn cyrraedd y safonau proffesiynol.
- e) Ffocws sefydlu yw cyrraedd lefel o arbenigedd, sgiliau a gwybodaeth yn unol â'r safonau proffesiynol, yn hytrach na chwblhau cyfnod penodedig o gyflogaeth. Mae gan ANGau y cyfle a'r hyder i gyfrannu ac arloesi'n weithredol fel rhan o'u rôl yn yr ysgol, ac maent yn disgwyl gallu gwneud hynny.
- f) Mae pob ANG yn elwa ar raglen sefydlu gynhwysfawr, ysgogol, o ansawdd da, ni waeth a ydynt wedi'u cyflogi neu'n gweithio fel athro cyflenwi ac ni waeth ym mha sector/cyfnod/cyfrwng iaith y maent wedi'u cyflogi.
- g) Ceir system llywodraethu sefydlu symlach sy'n rhoi sicrwydd ac atebolrwydd, yn egluro rolau sefydlu ac yn lleihau biwrocratiaeth heb dynnu oddi wrth ddiben sefydlu.

## Pa newidiadau rydym yn eu cynnig?

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud â phedwar maes a manylir arnynt isod. Bydd rhai o'r cynigion yn arwain at newidiadau i Reoliadau 2015. Rydym wedi nodi'r rhain isod lle y bo'n berthnasol a gofynnwn i ymatebwyr eu hystyried wrth ymateb, gan na fyddwn yn cynnal ymgynghoriad pellach ar y diwygiadau rheoliadol. Bydd cynigion eraill yn arwain at newidiadau i'r canllawiau, y cyllid neu'r trefniadau gweinyddol ar gyfer y rhaglen sefydlu. Caiff unrhyw newidiadau i'r trefniadau hyn syn deillio o'r ymgynghoriad hwn eu datblygu mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid allweddol.

### Amser:

- **Byddai lleiafswm hyd y cyfnod sefydlu yn cael ei bennu yn un tymor/dau hanner tymor yn olynol (pro-rata ar gyfer ANGau rhan amser). Byddai ANGau yn gallu gwneud cais am ddilysu pan fyddan nhw a'u mentor yn cytuno bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i ddangos eu bod yn cyrraedd y safonau proffesiynol.**

Mae'r rhan fwyaf o ANGau yn cymryd tua thri thymor ysgol neu 380 o sesiynau i ddangos, drwy eu proffil sefydlu, eu bod yn cyrraedd y safonau proffesiynol ac yn cwblhau eu cyfnod sefydlu'n llwyddiannus. Ni fyddai disgwyl i unrhyw ANG gwblhau'r cyfnod sefydlu mewn un tymor/dau hanner tymor yn olynol. Fodd bynnag, drwy gyflwyno lleiafswm o ran hyd y cyfnod sefydlu, byddai'r cynnig hwn yn datrys y broblem yn ymwneud ag ANGau sy'n cyrraedd y safonau ond sy'n brin o ychydig sesiynau i'w galluogi i gwblhau eu cyfnod sefydlu'n llwyddiannus. Byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ANGau cyflenwi byrdymor na'r system bresennol, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gwblhau 380 o sesiynau. Ni fyddai angen y gofyniad i ANGau cyflenwi byrdymor gwblhau na chofnodi sesiynau unigol o gyflogaeth. Byddai'n newid y ffocws o nifer y sesiynau a weithiwyd i feithrin y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i'w galluogi i ddangos eu bod yn cyrraedd y safonau proffesiynol. Byddai'n lleihau'r baich gweinyddol sy'n

gysylltiedig â'r system bresennol ar gyfer ANGau cyflenwi byrdymor gan na fyddai angen iddynt gofnodi sesiynau mwyach na gofyn i aelod o dîm uwch-reolwyr yr ysgol lofnodi eu taflenni amser cyn iddynt adael yr ysgol.

Mae mantais dull gweithredu hyblyg sy'n ystyried amrywiadau unigol mewn cynnydd i ANGau cyflenwi byrdymor i'w gweld yn nata sefydlu Cyngor y Gweithlu Addysg. Mae ffigurau'n dangos, yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2020 (pan gymhwyswyd y diwygiadau dros dro a wnaed i Reoliadau 2015 gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020), fod 47 o'r 121 o ANGau a gyflogwyd ar sail cyflenwi byrdymor am ran o'u cyfnod sefydlu, neu'r cyfnod cyfan, wedi gallu dangos eu bod yn cyrraedd y safonau proffesiynol a chwblhau'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus mewn llai na 380 o sesiynau.

Byddai'r cynnig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Reoliadau 2015 gael eu diwygio.

- **Byddai'n ofynnol i bob ANG ymgymryd â chyfnod parhaus o waith mewn un ysgol o un tymor o leiaf, neu ddau hanner tymor yn olynol (neu gyfnod cyfatebol os yn gweithio'n rhan-amser), ar ryw adeg yn ystod ei gyfnod sefydlu.**

Nod y cynnig hwn yw sicrhau y bydd pob ANG yn ystod eu cyfnod sefydlu, yn cael profiad o fywyd gweithio'r ysgol ac yn dod yn rhan ohono. Mae tystiolaeth o'r adolygiadau sefydlu ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid yn awgrymu na fyddai ANGau sydd ond yn ymgymryd â gwaith cyflenwi byrdymor fel arall yn cael y cyfle er enghraifft, i gymryd rhan mewn nosweithiau rhieni neu gynllunio'r cwricwlwm. Felly ni fyddant o bosib yn cael y profiad proffesiynol nac yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gasglu tystiolaeth i fodloni'r safonau proffesiynol gofynnol a/neu eu paratoi'n llawn ar gyfer gyrfa mewn addysgu.

Yn ystod eu cyfnod sefydlu, byddai'n ofynnol i ANGau weithio mewn ysgol am dymor academaidd gyfan, neu ddau hanner tymor yn olynol dros ddau dymor academaidd. Gallai gweddill y cyfnod sefydlu gael ei gwblhau yn hyblyg fel athro cyflenwi byrdymor.

Byddai'r gofyniad arfaethedig hwn yn cyd-fynd â'r cynnig uchod o osod lleiafswm o ran cyfnod sefydlu o un tymor/dau hanner tymor yn olynol.

Os bydd y cynnig hwn yn derbyn cefnogaeth ac yn cael ei dderbyn, ein bwriad fydd cyflwyno'r gofyniad hwn o fis Medi 2023 ymlaen er mwyn sicrhau bod digon o amser i hysbysu myfyrwyr AGA o'r gofynion cyn iddynt ddechrau eu cyfnod sefydlu. Yn ystod y cyfnod hwn byddem hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion i benderfynu a fyddai angen unrhyw fesurau i sicrhau bod ANGau yn gallu cyflawni'r gofyniad hwn, ac os felly y math ac ystod o fesurau. Byddwn yn defnyddio tystiolaeth o beilot blaenorol ar gyfer gweithio mewn clwstwr a'r rhaglen lleoli ANG bresennol, sydd wedi darparu cyflogaeth i rai ANGau yn ystod y flwyddyn academaidd 2021/22, i lywio datblygiad unrhyw fesurau.

Byddai'r cynnig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Reoliadau 2015 gael eu diwygio.

- **Byddai'n ofynnol i ANGau gwblhau eu cyfnod sefydlu o fewn pum mlynedd o ennill SAC.**

Roedd y 'rheol pum mlynedd' yn un o ddarpariaethau rheoliadau sefydlu blaenorol, ond cafodd ei dileu yn 2005 fel mesur i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr AGA a

oedd yn ennill statws athro cymwysedig (SAC) a'r lleihad yn nifer y swyddi addysgu llawn amser oedd ar gael. Mae'r rhan fwyaf o ANGau ar hyn o bryd yn cymryd rhwng blwyddyn neu ddwy i gwblhau eu cyfnod sefydlu. Byddai 'r cynnig hwn yn rhoi ffenest o bum mlynedd o ennill SAC i gwblhau eu cyfnod sefydlu i ANGau. Byddai cyrff priodol yn cadw'r ddarpariaeth i ymestyn y cyfnod sefydlu pe bai angen mewn amgylchiadau penodol, e.e. salwch neu gyfrifoldebau gofalu.

Byddai hyn yn sicrhau bod pob athro sy'n gweithio mewn ysgol yng Nghymru, boed hynny ar sail llawn amser, rhan amser neu gyflenwi, wedi dangos ei fod yn cyrraedd y safonau proffesiynol, h.y. ei fod wedi meithrin ei sgiliau ac wedi ennill profiad mewn cyfnod rhesymol o amser. Byddai hefyd yn sicrhau bod y proffesiwn addysgu'n gyson â phroffesiynau eraill, er enghraifft y proffesiwn cyfreithiol, lle y caiff terfynau amser eu gosod ar gyfer cwblhau cymwysterau.

Byddai'r cynnig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Reoliadau 2015 gael eu diwygio.

### **Cymorth ar gyfer yr ANG:**

- **Darparu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol mwy strwythuredig a chyson i ANGau ledled Cymru. Byddai'r mentora a'r cymorth yn cael ei ddarparu gan fentor sefydlu hyfforddedig a ariennir yn yr ysgol lle caiff yr ANG ei gyflogi. Byddai ANGau cyflenwi byrdymor yn cael eu mentora gan fentor sefydlu sy'n gweithio gyda sawl ANG. Byddai'r un mentor yn aros gyda'r ANG drwy gydol y cyfnod sefydlu lle bynnag y bo hynny'n bosibl.**

Mae'r rhaglen dysgu proffesiynol bresennol a gynigir i ANGau yn amrywio. Mae arweinwyr sefydlu ALLau/consortia rhanbarthol wedi gweithio'n agos dros y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu a chyflwyno rhaglen fwy cyson. Er mwyn parhau i gryfhau a chysoni'r cymorth sydd ar gael i ANGau, cynigiwn y dylid diwygio'r canllawiau i ddarparu rhaglen gymorth fwy strwythuredig i ANGau, sy'n canolbwyntio ar feithrin ymddygiadau proffesiynol yn ogystal â meithrin sgiliau a gwybodaeth yn unol â'r safonau proffesiynol. Fel y cynigiwyd yn *Dysgu bod yn athro yng Nghymru*, byddai disgwyl i'r rhaglen sefydlu gynnwys 13 diwrnod o ddysgu proffesiynol wedi'i ddarparu gan y consortiwm/ALI a'r ysgol, a byddai hyn yn cael ei nodi'n glir mewn canllawiau.

Byddai'r 13 diwrnod yn cynnwys:

- tridiau (neu gyfnod cyfatebol) o hyfforddiant gwahaniaethol i bob ANG, wedi'i ddarparu gan y consortiwm rhanbarthol neu'r awdurdod lleol. Byddai disgwyl i bob ANG fynychu'r tri diwrnod;
- cyfnod sy'n cyfateb i bum niwrnod mewn ysgol dan arweiniad y mentor sefydlu; a
- chyfnod sy'n cyfateb i bum niwrnod wedi'i gydgyssylltu gan y consortiwm rhanbarthol neu'r awdurdod lleol i feithrin dealltwriaeth drwy ddysgu mewn partneriaeth, gan gynnwys darllen yn helaeth am ddamcaniaeth ac ymchwil.

Er mwyn sicrhau y gall y mentor sefydlu ddarparu'r pum niwrnod arfaethedig o gymorth dan arweiniad, cynigiwn y dylid cyllido rôl y mentor sefydlu. Nid yw'r rôl yn cael ei chyllido ar hyn o bryd a gall mentoriaid gael eu dethol yn seiliedig ar eu hargaeledd yn hytrach na'u harbenigedd, eu hyfforddiant a'u hawydd i ymgymryd â'r rôl. Ceir mentoriaid yn yr ysgol y mae eu profiad a'u safon yn amrywio'n fawr. Gallai cyllido'r rôl godi proffil mentora a'i wneud yn fwy deniadol, er mwyn lleihau trosiant mentoriaid a rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu yn y rôl.

Gwiriwr allanol yn hytrach na mentor sy'n gyfrifol am fentora ANGau cyflenwi byrdymor ar hyn o bryd. Gall sesiynau mentora gael eu hoedi yn sgil anawsterau wrth ddod o hyd i'r ANG neu gysylltu ag ef. O dan y cynigion hyn, yn y rhan fwyaf o achosion bydd y mentor sefydlu yn gydweithiwr yn yr ysgol. Mewn amgylchiadau eraill, gallai fod yn fentor sy'n gweithio'n lleol/rhanbarthol (e.e. yn gwasanaethu nifer o ysgolion neu'n mentora athrawon cyflenwi).

Byddai'r cynigion hyn yn helpu i fynd i'r afael ag amrywioldeb ac anghysondeb y cymorth sydd ar gael yng Nghymru drwy sicrhau bod pob ANG yn gallu manteisio ar raglen genedlaethol a gyflwynir yn rhanbarthol neu'n lleol ac a gefnogir mewn ysgol gan fentor hyfforddedig a gyllidir, ac y neilltuir amser iddo gefnogi'r ANG.

## **Lleoliadau lle y gellir cynnal cyfnod sefydlu:**

- **Cynigiwn y dylid caniatáu i gyfnod sefydlu gael ei gynnal mewn unedau cyfeirio disgyblion sy'n addysgu'r Cwricwlwm i Gymru.**

Gall ANGau weithio mewn unedau cyfeirio disgyblion ond ar hyn o bryd, ni chânt gyfrif eu hamser addysgu yn y lleoliadau hynny tuag at eu cyfnod sefydlu.

Ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol i unedau cyfeirio disgyblion ddilyn y cwricwlwm llawn sy'n cael ei ddysgu mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru, fel a osodir yn Rhan 7 Deddf Addysg 2002.

Fodd bynnag, mae'r gofynion a gyflwynwyd gan Ddeddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru i unedau cyfeirio disgyblion yn debyg i'r rheiny ar gyfer ysgolion prif ffrwd a gynhelir, a bydd y cwricwlwm newydd yn dechrau cael ei gyflwyno i ysgolion a lleoliadau eraill (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion o fis Medi 2022).

Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd i ANGau feithrin eu hymarfer addysgu, eu gwybodaeth a'u sgiliau yn unol â'r safonau proffesiynol yn y lleoliadau hyn, ac ar y sail hon, cynigiwn y dylid caniatáu i ANGau gyfrif eu hamser addysgu mewn unedau cyfeirio disgyblion sy'n addysgu'r Cwricwlwm newydd i Gymru tuag at eu cyfnod sefydlu.

Byddai hyn yn galluogi ANGau i ymgymryd â'u cyfnod sefydlu mewn amrywiaeth ehangach o leoliadau, a byddai'n golygu na fyddai unedau cyfeirio disgyblion yn colli aelodau o staff am na allant gyfrif eu hamser addysgu tuag at gwblhau eu cyfnod sefydlu mwyach.

Byddai'r cynnig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Reoliadau 2015 gael eu diwygio.

## **Llywodraethu a rolau:**

- **Cynigiwn y dylid gwahanu'r swyddogaeth penderfynu ar ganlyniad y cyfnod sefydlu (dilysu) oddi wrth y broses o roi cymorth i'r ANG drwy egluro'r rolau a symleiddio'r prosesau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen sefydlu.**

O dan y trefniadau presennol, nid yw bob amser yn glir sut mae'r swyddogaeth penderfynu a'r broses o roi cymorth yn wahanol i'w gilydd. Mewn rhai achosion mae'r corff priodol yn cyflwyno'r rhaglen dysgu proffesiynol ac yn goruchwyllo'r broses

gymedroli sy'n arwain at benderfynu ar ganlyniad cyfnod sefydlu'r ANG. Felly, mae'r cyfrifoldebau'n gymysg, ac nid oes rhaniad clir rhwng y dyletswyddau bob amser.

O dan Reoliadau 2015, y corff priodol sy'n gyfrifol am hyfforddi'r person sy'n cwblhau cyfnod sefydlu a'i oruchwylio'n gyffredinol. Bydd hyn yn parhau. Fodd bynnag, cynigiwn y dylid diwygio'r canllawiau a rhoi mwy o eglurder ynghylch rolau a phroses lywodraethu'r rhaglen sefydlu fel a ganlyn:

- Bydd mentoriaid sefydlu'n darparu mentora a chymorth; yn arsylwi'r ANG ac yn penderfynu a yw'r ANG yn cyrraedd y safonau gan ddefnyddio'r proffil sefydlu.
- Bydd gwirwyr allanol yn dilysu sampl o broffiliau sefydlu ac yn gwneud argymhellion terfynol i gyrrff priodol.
- Bydd cyrff priodol yn gweithredu ar lefel yr ALI ac yn gyfrifol am gymedroli argymhellion y gwirwyr allanol ar lefel genedlaethol.

Byddai gwahanu rolau sefydlu yn sicrhau system lywodraethu sy'n rhoi sicrwydd ac atebolrwydd.

Bydd y broses o gyflwyno'r rhaglen cymorth sefydlu yn parhau i gael ei goruchwylio gan gydgysylltwyr sefydlu (ar sail ranbarthol neu'r ALI) mewn cydweithrediad ag ysgolion a darparwyr AGA, er mwyn cefnogi datblygiad ANGau yn eu hardal (fel yr amlinellir yn Cymorth ar gyfer yr ANG uchod). Byddai hyn yn cynnwys trefnu mentora effeithiol (gan gynnwys ar gyfer ANGau sy'n ymgymryd â chyfnod sefydlu drwy gyflenwi byrdymor), a dylunio a chydgyssylltu rhaglen dysgu proffesiynol briodol.

Yn amodol ar ganlyniad y broses ymgynghori, byddai Llywodraeth Cymru yn adolygu'r broses weinyddol sy'n gysylltiedig â chofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg a'r broses o ymgymryd â'r rhaglen sefydlu ar y cyd â'r arweinwyr sefydlu a Chyngor y Gweithlu Addysg, ac yn symleiddio'r prosesau hynny lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn lleihau profiad biwrocraidd ANGau. Er enghraifft, ni fyddai angen y gofyniad i ANGau cyflenwi byrdymor gwblhau na chofnodi sesiynau unigol o gyflogaeth pe bai'r cynnig i bennu lleiafswm o ran cyfnod sefydlu o un tymor/dau hanner dymor yn olynol yn cael ei dderbyn. Byddai hyn yn lleihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chofnodi sesiynau i ANGau.